OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 216 (Cy. 53)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio mewn perthynas â'r lleoliadau clinigol hynny a bennir yn is-adran 25B(3), sef wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion a wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion, o dan ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau i'w cynnal, ac i hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y sefyllfaoedd y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddynt i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 216 (W. 53)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Nurse Staffing Levels (Extension of Situations) (Wales) Regulations 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under section 25B of the National Health Service (Wales) Act 2006, a Local Health Board or NHS Trust which provides nursing services in relation to those clinical settings specified in subsection 25B(3), namely adult acute medical inpatient wards and adult acute surgical inpatient wards, is under a duty to calculate, and take steps to maintain, nurse staffing levels, and to inform patients of those nurse staffing levels.

These Regulations extend the situations to which the duties under section 25B of the National Health Service (Wales) Act 2006 apply to include paediatric inpatient wards.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations in Wales. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 216 (Cy. 53)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 25B(3)(c) a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 203(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021.

(**1**) 2006 p. 42; gweler adran 206(1) am y diffiniad o "regulations". Mewnosodwyd adran 25B yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") gan adran 1(1) o Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (dccc 5) ("Deddf 2016"). Diwygiwyd adran 203(6) o Ddeddf 2006 gan adran 1(2) o Ddeddf 2016 i ddarparu bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 25B(3)(c) o Ddeddf 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Mewnosodwyd y diffiniad o "nurse staffing level", fel y'i diffinnir yn adran 25B(1)(a) o Ddeddf 2006, yn y tabl o ymadroddion wedi eu diffinio yn adran 207 o'r un Ddeddf gan adran 1(3) o Ddeddf 2016.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 203(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 216 (W. 53)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Nurse Staffing Levels (Extension of Situations) (Wales) Regulations 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 March 2021* |
| *Coming into force* | *1 October 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 25B(3)(c) and 203(9) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Regulations.

In accordance with section 203(6) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(**2**).

### Title and commencement

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Nurse Staffing Levels (Extension of Situations) (Wales) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2021.

(**1**) 2006 c. 42; see section 206(1) for the definition of "regulations". Section 1(1) of the Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016 (anaw 5) ("the 2016 Act") inserted section 25B into the National Health Service (Wales) Act 2006 ("the 2006 Act"). Section 1(2) of the 2016 Act amended section 203(6) of the 2006 Act to provide that regulations made under section 25B(3)(c) of the 2006 Act are made pursuant to the affirmative procedure. Section 1(3) of the 2016 Act inserted the definition of "nurse staffing level", as defined in section 25B(1)(a) of the 2006 Act, into the table of defined expressions in section 207 of the same Act.

(**2**) The reference in section 203(6) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

**Sefyllfaoedd penodedig ar gyfer gwasanaethau nyrsio**

**2.** Mae wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi eu pennu yn sefyllfa y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddi.

**Specified situations for nursing services**

**2.** Paediatric inpatient wards are specified as a situation to which the duties under section 25B of the National Health Service (Wales) Act 2006 apply.

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
1 Mawrth 2021

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
1 March 2021

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/216

ISBN 978-0-348-20757-6